Sue Essex AC
Gweinidog dros yr Amgylchedd

Ein cyf: WAQ 18153W

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES
CARDIFF BAY LIBRARY
DP 233/99-03
LLYFRGELL BAE CAERDYDD
CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Geraint Davies AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
June 2002

14 Mehefin 2002

Annwyl Geraint

**WAQ18153: NANT-Y-GWYDDON**

Cyfeiriaf at fy ymateb blaenorol ynghylch y cwestiwn ysgrifenedig uchod.

Roeddech wedi gofyn a oedd unrhyw gynlluniau gennyf i ddarparu cyllid i adfer tir tomen sbwriel Nant-y-gwyddon.

Yn fy llythyr ar 22 Ebrill atoch chi, dywedais mai cyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yw penderfynu ar ei flaenoriaethau o ran rheoli gwastraff ac ariannu a thalu costau unrhyw waith adfer ar y safle o'r adnoddau sydd heb eu clustnodi'n benodol. Dyma'r sefyllfa o hyd.

Fel y dywedais yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Chwefror, byddaf yn mynd rhagddi ag ail ran o argymhelliad 2 o adroddiad ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i Nant-y-gwyddon, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gomisiynu astudiaeth awdurdodol o sefydlogrwydd y safle.

Yn fwyaf cyffredinol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dyrannu cyllid ychwanegol o dros £5 miliwn i Gyngor Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2001-02 i 2004-05 fel rhan o'i ymrwymiad i ddatblygu dulliau mwy cynaliadwy o reoli gwastraff ac i symud i ffwrdd o'r arfer o ddefnyddio tirlenwi.

Anfonaf gopi o'r llythyr hwn at Uned Fusnes Llywodraeth y Cynulliad, Ian Turner yn Llyfrgell Bae Caerdydd ac Ian Evans yn Llyfrgell Parc Cathays.

Yn gywir

Sue

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
CAERDYDD / CARDIFF
CF99 1NA / CF99 1NA
Switsfwrdd / Switchboard
029 2082 5111 / GTN:1208